# Pennaeth Addysg
# Head of Education
Dewi R. Jones

Gofynnwch am/Ask for: **Dewi R Jones**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **DRJ/AAS**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
dewirjones@gwynedd.gov.uk


14 Ionawr 2013

**At benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr ysgolion cynradd Gwynedd**

Annwyl Bennaeth/Cadeirydd Y Llywodraethwyr

***Par: Ymgynghori ar sail dosbarthu arbedion trefniadaeth ysgolion***

Y mae'r hyn a gyflwynir i chi yn y llythyr hwn yn seiliedig ar benderfyniadau Cyngor Gwynedd ym maes ad-drefnu ysgolion yn nalgylchoedd Tywyn a'r Berwyn.

Bydd rhai o'r cynlluniau y penderfynwyd arnynt yn weithredol yn ystod y flwyddyn gyllidol 2013/14, sef:

1. Ysgol Craig y Deryn yn agor 1 Medi 2013 : cau Ysgolion Abergynolwyn (eisoes wedi cau 1 Ebrill 2011), Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril ar 31 Awst 2013.
2. Ysgol Aberdyfi : cau 31 Awst 2013
3. Ysgol Y Parc : cau 31 Awst 2013

Amgaeaf **Atodiad 1** sy'n manylu ar yr arbedion ariannol gwreiddiol a'r rhai diweddaraf sy'n deillio o'r cynlluniau.

Yn ystod y flwyddyn gyllidol 2013/14 ymddengys y bydd yn bosib rhyddhau £200,000 o'r arbedion sy'n weithredol o 1 Medi 2013 i'r 98 Ysgol Gynradd fydd yng Ngwynedd bryd hynny.

Ar ôl ystyried sylwadau swyddogion, rhai Penaethiaid Cynradd a'r Aelod Cabinet, cychwynnir yn awr ar ymgynghoriad ar y ddau opsiwn dosbarthu isod ac amgaeaf **Atodiad 2** sy'n amlygu'r effaith ariannol ar ysgolion unigol.

***Opsiwn 1***

A. Dosbarthu £98,000 trwy ddileu'r llinell " Cynllun Cefnogi Dosbarthiadau Mawr CA2" fydd yn dosbarthu £1,000 i bob ysgol er mwyn dileu'r cyfraniad. (Ni fydd hyn yn lleihau'r gyllideb cefnogi dosbarthiadau mawr)
B. Dosbarthu £102,000 ar sail nifer disgyblion (trwy'r pennawd gwasanaethau a chyflenwadau)

***Opsiwn 2***

A. Dosbarthu £98,000 trwy ddileu'r llinell " Cynllun Cefnogi Dosbarthiadau Mawr CA2" fydd yn dosbarthu £1,000 i bob ysgol er mwyn dileu'r cyfraniad. (Nid fydd hyn yn lleihau'r gyllideb cefnogi dosbarthiadau mawr)
C. Dosbarthu £102,000 ar sail nifer y disgyblion a deilynga ginio am ddim (trwy'r pennawd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Amddifadedd)

Trwy ddefnyddio ystadegau cinio am ddim mae'r ail opsiwn yn cynnwys elfen sy'n ceisio targedu disgyblion o gefndiroedd mwy difreintiedig, gyda'r bwriad i'r cyllid hwnnw gael ei ychwanegu at y cyllid a dderbynia'r ysgolion eisoes er mwyn targedu'r disgyblion hyn mewn modd cadarnhaol a fydd yn dylanwadu ar eu cyrhaeddiad addysgol.

Ymhellach, mae'r Aelod Cabinet dros Addysg wedi gofyn i mi gynnwys ei neges isod:-

> *"Gan fod y dystiolaeth sydd ar gael bellach yn profi bod yna dangyflawniad ym mherfformiad canran gynyddol o blant a deilynga ginio ysgol am ddim, hoffwn weld yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gynnig cefnogaeth bellach i'r plant hyn. Gall targedu effeithiol wneud gwahaniaeth".*
>
> Siân Gwenllian - Aelod Cabinet dros Addysg

Byddaf yn adrodd i'r Fforwm Cyllid Ysgolion yn eu cyfarfod nesaf ar 4 Chwefror 2013. Oherwydd bod yr amserlen yn dynn, fe gynhwysaf yn yr adroddiad i'r Fforwm grynodeb o'r ymatebion a dderbynnir **cyn brynhawn Gwener, 1 Chwefror 2013.**

Gofynnaf yn garedig i chi ymateb trwy ddefnyddio **Atodiad 3** amgaeedig.

Yn gywir

*Dewi R Jones*

**Dewi R Jones**
**Pennaeth Addysg**

**Copi:** Tîm Rheoli'r Adran Addysg